



Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Cyfarfod at Wraidd y Mater

Anghymesuredd Ethnig

Cyfarfod dros Microsoft Teams

4 Awst 2020

Yn bresennol	
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Laura Armitt (LA)	Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ)	Prif Weithredwr
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jackie Trow (JT)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Emma Wools (EW) (CADEIRYDD)	Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Heddlu De Cymru	
Yr Uwch-arolygydd Marc Attwell (MA)	Pennaeth Perfformiad a Gwybodaeth Busnes
Martyn Jones (MJ)	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Caroline Smart (CS)	Gwasanaethau Corfforaethol – Rheoli Corfforaethol
Mark Stevenson (MS)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Jeremy Vaughan (JV)	Dirprwy Brif Gwnstabl
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

Na hoff wn	Eitem	Cynnwys
1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	<p>1.1 Croesawodd EW y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Nodwyd ymddiheuriadau gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gilmer.</p> <p>1.2 Amlinellodd EW ddiben y cyfarfod, sef ystyried anghymesuredd ethnig. Byddai cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu hystyried ar ddiwedd y cyfarfod.</p>
2.	Diweddariad yn dilyn y Cyfarfod Adolygu â'r adran Rheoli Corfforaethol, a Chofnodion	<p>2.1 Rhoddodd LJ ddiweddariad yn dilyn y cyfarfod blaenorol, sef cyfarfod adolygu blynyddol rhwng tîm y Comisiynydd a'r adran Datblygu Corfforaethol. Dywedodd LJ fod rhaglen Graffu y llynedd wedi'i thrafod a bod argymhellion wedi'u cyflwyno ar gyfer y flwyddyn i ddod. Adolygwyd strwythur cyfarfodydd y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd, gan gynnwys sut i wella'r broses o rannu gwybodaeth cyn cyfarfodydd a sut i reoli'r argymhellion a'r camau gweithredu yn ystod y flwyddyn.</p>
3.	Adroddiad Sicrwydd Busnes: Adolygiad o Anghymesuredd Hiliol	<p>3.1 Estynnodd EW gwahoddiad i HJJ gyflwyno adroddiad Tîm y Comisiynydd. Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth am waith ymchwil i anghymesuredd hiliol a gynhaliwyd o fewn y tîm, gan gynnwys hapsamplu cofnodion stopio a chwilio, hapsamplu deunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff, grwpiau ffocws gyda phobl ifanc duon a lleiafrifoedd ethnig, a choladu gwaith ymchwil cenedlaethol presennol.</p> <p>3.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys canfyddiadau gwaith hapsamplu a gwblhawyd gan y tîm Sicrwydd Busnes mewn perthynas â chofnodion stopio a chwilio a deunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff. Roedd gwaith craffu wedi'i gwblhau ar gydymffurfiaeth gyffredinol a chwarteisi swyddogion. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd cwrteisi swyddogion yn amlwg. Nodwyd un achos lle teimlwyd nad oedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn addas. Nododd yr adroddiad hefyd weithgareddau ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid diweddar a hwyluswyd gan y tîm Sicrwydd Busnes. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau ffocws stopio a chwilio a drefnwyd mewn partneriaeth â Race Equality First a Chlwb Bocsio Tiger Bay. Eglurodd HJJ mai diben y grŵp ffocws oedd deall profiadau pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig a oedd wedi cael eu stopio a'u chwilio gan Heddlu De Cymru.</p> <p>3.3 Nododd HJJ ganfyddiadau allweddol a ddeilliodd o'r grwpiau hyn, ac o sefydliad ieuentid ychwanegol, a rhannodd rai o safbwyntiau'r bobl ifanc, a oedd yn cynnwys pryderon am yr iaith a ddefnyddiwyd gan rai swyddogion wrth stopio a chwilio, a'u bod yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu targedu oherwydd eu dillad neu liw eu croen. Nododd HJJ hefyd waith ymchwil cenedlaethol presennol ar anghymesuredd hiliol a oedd wedi'i gynnwys yn ei hadroddiad.</p>

		<p>3.4 Yn olaf, cyfeiriodd HJJ at effaith emosiynol stopio a chwilio ar aelodau o'r cyhoedd a chwestiynodd p'un a oedd angen gefynnu'r unigolion yn rhai o'r fideos a wylwyd. Pwysleisiodd yr angen i daro cydbwysedd rhwng y defnydd o bwerau stopio a chwilio ac effaith hynny ar gydlyniant cymunedol, ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn benodol. Ailbwysleisiodd HJJ hefyd bwysigrwydd iaith a chyfathrebu.</p> <p>3.5 Diolchodd JV i HJJ am ei hadroddiad llawn gwybodaeth. Cyfeiriodd at y data yn yr adroddiad a nododd nifer y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig rhwng 18 a 34 oed a gafodd eu stopio a'u chwilio am gyffuriau, gan gwestiynu demograffeg y lleoliadau lle y cawsant eu stopio a rhesymeg strategol yr heddlu dros leoli swyddogion yn yr ardaloedd hynny. Cyfeiriodd JV at y polisi gefynnu a nododd ei fod yn fater yr oedd angen ymateb iddo. Nododd hefyd y byddai'n ceisio sicrwydd bod tîm Ymgyrch Sceptre wedi cael hyfforddiant priodol ar ragfarn ddiarwybod. Gofynnodd JV am i dîm y Comisiynydd rannu rhif y digwyddiad a nodwyd yn yr adroddiad, er mwyn iddo wyllo'r deunydd fideo camera a wisgir ar y corff o'r digwyddiad.</p>
4.	Data ar Anghymesuredd	<p>4.1 Cyfeiriodd HJJ at y data lle nad oedd ethnigrwydd wedi'i gofnodi, gan nodi ei bod yn glir bod y data hyn yn parhau i gynyddu. Gofynnodd HJJ beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn, a nododd bwysigrwydd cywirdeb y data hyn. Dywedodd CS fod ansawdd data yn fater y mae'r heddlu'n gweithio i fynd i'r afael ag ef, a chadarnhaodd y byddai'n trafod hyn â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gilmer drwy'r grŵp Cydgysylltu Ymgyrchoedd.</p> <p>4.2 Gofynnodd LJ am i'r heddlu ddarparu dadansoddiad pellach i dîm y Comisiynydd o ddata stopio a chwilio fesul ardal leol er mwyn gweld sut mae'r data hyn yn cymharu o ran anghymesuredd ethnig, e.e. dadansoddiadau awdurdodau lleol yn erbyn data poblogaeth awdurdodau lleol (ac o bosibl hyd at lefelau'r sectorau a nodir ar gofnodion stopio a chwilio). Gofynnodd LJ hefyd a oedd gwaith stopio a chwilio tîm Ymgyrch Sceptre yn cael unrhyw effaith ar droseddau cyllyll, gan nad oedd hyn yn glir o'r data a ddarparwyd. Teimlai JV fod y defnydd o'r adnodd stopio a chwilio yn llwyddiannus o ran lleihau troseddau cyllyll a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.</p> <p>4.3 Gofynnodd JV a oedd y data'n awgrymu bod swyddogion yr heddlu yn Ne Cymru yn gwneud penderfyniadau a oedd yn dangos rhagfarn ar sail hil. Nododd MA pe bai'r data ansoddol yn cael eu dileu, fel yr ymchwil a'r gwaith a gwblhawyd gan y tîm Sicrwydd Busnes, na fyddai'r data'n awgrymu hynny. Fodd bynnag, roedd canfyddiadau pobl yn awgrymu fel arall. Awgrymodd JV fod angen i ddarn annibynnol o waith gael ei gwblhau i ystyried y data mewn perthynas â meysydd gwahanol o'r heddlu, er mwyn deall a oedd materion yn bodoli, ac ymhle. Cytunodd EW, a gofynnodd am i'r heddlu ddarparu dadansoddiad pellach o'r data mewn perthynas â thimau a swyddogion unigol a oedd yn stopio'r nifer mwyaf o bobl a'r nifer mwyaf o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Byddai hyn yn galluogi'r bwrdd i ystyried canfyddiadau a thueddiadau a chanfod p'un a wnaed defnydd cywir o'r pŵer yn yr achosion hynny.</p> <p>4.4 Cyfeiriodd JT at bwynt blaenorol MA, a theimlai pe bai'r bwrdd yn ystyried data ansoddol mewn perthynas â chwynion gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, y byddai hyn yn galluogi'r heddlu i nodi sut y cafodd ymgyrchoedd penodol eu cynnal. Nododd JT yr angen i gynyddu nifer y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a oedd yn barod i ymwneud â system cwynion yr heddlu, er mwyn casglu barn ein cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.</p>

4.5 Cwestiynodd HJJ p'un a oedd y pŵer i stopio a chwilio yn cael ei ddefnyddio fel targed perfformiad, ac a oedd swyddogion yn cael eu hannog i stopio a chwilio mwy o bobl yn ystod cyfnodau tawelach. Teimlai HJJ nad oedd y data 'dim camau pellach' wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, a gofynnodd sut roedd y data hyn yn cymharu â heddluoedd eraill. Cadarnhaodd JV nad oedd y timau uwch-reolwyr yn annog swyddogion i gynyddu nifer yr achosion o stopio a chwilio fel mesur perfformiad. Gofynnodd EW a ellid rhoi sicrwydd i JV nad oedd rheolwyr lefel is yn annog swyddogion i wneud hyn, a ph'un a oedd angen i oruchwylwyr atgyfnerthu hyn. Ymatebodd MA i'r ymholiad ynghylch data cenedlaethol a dywedodd fod tua 30% o'r achosion o stopio a chwilio yng Nghymru a Lloegr wedi arwain at gamau cadarnhaol.

4.6 Cyfeiriodd LA at y mater yn ymwneud â'r defnydd o iaith a nodwyd yn yr adroddiad, a theimlai y gallai swyddogion fod yn canolbwyntio gormod ar adrodd camau GOWISELY ar sail gyfreithiol, nes bod y rhyngweithio rhyngddynt â phobl ifanc yn cael ei gamddehongli. Gofynnodd LA a oedd mater yn ymwneud â hyfforddiant mewn perthynas â chydymffurfio â chymau GOWISELY a'r ffordd roedd y weithdrefn hon wedyn yn cael ei rhoi ar waith ar y strydoedd. Cytunodd SM â'r pwyntiau a wnaed, ac ar ôl gwyllo'r deunydd fideo, teimlai bod gan unigolion a oedd yn cael eu stopio ddealltwriaeth well o'r broses pan oedd y swyddogion yn defnyddio ffordd fwy naturiol o egluro'r rhesymau dros eu stopio, a'u hawl i gael copi o'r rheolau neu wneud cwyn. Cytunodd CS a chadarnhaodd bwysigrwydd arddull gyfathrebu fwy meddal, a dywedodd fod camau'n cael eu cymryd i fynd ar drywydd hyn drwy'r ymarfer "dychwelyd i'r rheng flaen".

4.7 Gofynnodd EW pa fesurau oedd ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â GOWISELY a gwella cydymffurfiaeth mewn perthynas â chofnodion camerâu fideo a wisgir ar y corff, gan fod HJJ wedi nodi yn ei hadroddiad bod 21 o fideos nad oeddent yn cyfateb i'r cofnodion. Cadarnhaodd CW fod y maes hwn yn destun llawer o waith craffu drwy adolygiadau blynyddol a'r grŵp Pwerau Cymhellol, yn ogystal â gwaith chraffu allanol gan yr Arolygiaeth. Nododd CW fod cydymffurfiaeth yn cael ei monitro o ran y materion a nodwyd a'r mesurau a oedd ar waith i wella profiadau stopio a chwilio ac adroddiadau.

4.8 Eglurodd SM fod y tîm yn gweld, wrth hapsamplu deunyddiau fideo camerâu a wisgir ar y corff, bod swyddogion weithiau'n egluro rhai o gamau GOWISELY cyn troi eu camerâu ymlaen. Roedd hyn yn golygu ei bod yn ymddangos nad oeddent yn cydymffurfio'n llawn â'r weithdrefn gan nad oedd y tîm yn clywed camau penodol o'r broses. Gofynnodd HJJ am i swyddogion gael eu hatgoffa i droi eu camerâu fideo a wisgir ar y corff ymlaen cyn y digwyddiad ac am bwysigrwydd cyflwyno'r ffurflen gofnodi i ategu'r fideo.

4.9 Cyfeiriodd LJ at yr adroddiad a oedd yn nodi nad oedd derbynebaw'n cael eu rhoi, a gofynnodd a fu penderfyniad gweithredol i beidio â'u rhoi neu p'un a oedd hyn yn deillio o fater yn ymwneud â hyfforddiant ac nad oedd swyddogion yn ymwybodol o'r gofyniad hwn. Dywedodd LJ nad oedd y sefyllfa hon wedi gwella ers yr ymarferion hapsamplu blaenorol. Dywedodd CW fod HJJ wedi codi hyn yn flaenorol a bod angen cyfathrebu eto â swyddogion i bwysleisio pwysigrwydd rhoi derbynebaw stopio a chwilio.

4.10 Dywedodd MA fod y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gilmer yn arwain darn o waith ar weithgareddau cydymffurfiaeth ar gyfer goruchwylwyr rheng flaen ym maes plismona tiriogaethol. Cynigiodd MA hefyd ei farn am y defnydd dadleuol o efnynnau wrth stopio a chwilio a godwyd yn yr

adroddiad cynharach. Dywedodd fod gefynnau'n debygol o gael eu defnyddio cyn stopio a chwilio unigolyn o ganlyniad i ymddygiad posibl yr unigolyn neu wybodaeth/cudd-wybodaeth a gafwyd. Eglurodd hefyd, pan fydd hyn yn digwydd, bod yn rhaid i'r swyddog gyflwyno ffurflen defnydd o rym i gyfiawnhau ei resymau dros wneud hynny. Teimlai EW fod angen gwneud rhagor o waith i fonitro'r materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth a nodwyd yn yr adroddiad.

4.11 Rhannodd HJJ ei phryderon ynghylch y defnydd o rym, a nododd fod cyfraddau defnydd anghymesur o rym yn cynyddu, yn enwedig y defnydd o ynnau taser ar bobl dduon a hil gymysg. Gofynnodd HJJ beth roedd yr heddlu'n ei wneud i ganfod pam roedd hyn yn digwydd mewn perthynas â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd CS fod y grŵp Pwerau Cymhellol wedi bod yn canolbwyntio ar ddata mewn perthynas â'r defnydd o rym a gynnau taser, a chynigiodd rannu cylch gwaith y grŵp newydd hwn a'r camau gweithredu yn dilyn y cyfarfodydd. Teimlai JV ei bod yn bwysig ceisio trefnu cyfarfodydd yr heddlu ochr yn ochr â chyfarfodydd y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd er mwyn sicrhau bod arweinwyr ar gyfer meysydd penodol yn gallu mynychu'r cyfarfodydd a rhoi atebion cyfredol i'r bwrdd. Teimlai JV hefyd y dylid rhannu deunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff â grwpiau cydlyniant cymunedol a grwpiau cyngori annibynnol fel y gellid rhannu eu hadborth â'r heddlu.

4.12 Gofynnodd LJ am i'r heddlu egluro sut roedd camau gweithredu ar gyfer gwella yn cael eu monitro mewn perthynas â stopio a chwilio a'r defnydd o rym, h.y. p'un a nodwyd gwersi i'w dysgu yng ngwaith monitro'r tîm Sicrwydd ac Arolygu, a sut y cawsant eu cyflwyno i unigolion, goruchwylwyr a/neu dimau ehangach?

4.13 Dywedodd MA wrth y bwrdd fod adnodd dadansoddi wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn galluogi'r heddlu i feithrin dealltwriaeth well o ddata ar y defnydd o rym, er enghraifft ble roedd grym yn cael ei ddefnyddio fwyaf a pham roedd mwy o ddefnydd o rym yn cael ei wneud mewn perthynas â dynion duon ac Asiaidd, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

4.14 Teimlai EW ei bod yn bwysig nodi bod angen gwneud mwy i ddangos bod mesurau rhagweithiol yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r mesurau a nodwyd, er enghraifft gwahanol weithgarwch monitro mewnol, a'r angen i gyfleu tryloywder a gwelededd yn allanol.

4.15 Cododd JT y mater yn ymwneud â'r ffaith nad oedd y data ar gyfer ffurflenni defnydd o rym yn adlewyrchiad gwir o'r ffigur cydymffurfiaeth, gan fod yn rhaid i swyddogion gyflwyno nifer o ffurflenni ar gyfer un digwyddiad. Cytunwyd bod hyn yn anodd ei unioni.

4.16 Teimlai SM y byddai'n fuddiol deall pam roedd llai o foddhad ymhlith ymatebwyr duon a lleiafrifoedd ethnig a ph'un a nodwyd unrhyw dueddiadau neu arsylwadau nodi drwy'r adborth a roddwyd. Dywedodd CW fod y prif themâu a nodwyd o'r adborth yn ymwneud â'r ffaith nad oedd unigolion dan amheuaeth yn cael eu harestio a bod dioddefwyr yn teimlo nad oedd swyddogion wedi gwneud digon i ymchwilio i'w hachos neu ddelio ag ef. Dywedodd CW hefyd fod y tueddiadau hyn yn debyg i'r rhai a nodwyd ar gyfer ymatebwyr gwyn hefyd. Rhannodd HJJ ei phryderon ynghylch y ffaith bod canlyniadau troseddau ar gyfer dioddefwyr duon yn is, a chwestiynodd a oedd cysylltiad rhwng hyn a'r cyfraddau boddhad is. Gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i sicrhau bod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n deg mewn arolygon boddhad dioddefwyr. Teimlai HJJ ei bod yn bwysig bod y tîm arolygu yn deall pwysigrwydd cael adborth gan bobl dduon a

		<p>lleiafrifoedd ethnig yn benodol. Nododd CW fod canllawiau'r Swyddfa Gartref yn nodi pwy y gallai'r tîm ei arolygu, a theimlai ei bod yn bwysig nodi nad oedd pob dioddefwr yn barod i gymryd rhan. Nododd hefyd fod y tîm yn ceisio sicrhau ei fod yn cynyddu nifer yr ymatebwyr duon a lleiafrifoedd ethnig. Gofynnodd EW a oedd meini prawf y Swyddfa Gartref yn cyfyngu ar nifer y dioddefwyr duon a lleiafrifoedd ethnig a oedd yn cael eu harolygu, ac a fyddai cyfle i ofyn a allai'r meini prawf hyn gael eu llacio. Teimlai CW na fyddai'n newid y meini prawf i adlewyrchu ethnigrwydd fel ffactor hidlo, gan fod y tîm yn cysylltu ag ymatebwyr ar sail y math o drosedd yn hytrach nag ethnigrwydd. Gofynnodd MS pwy oedd yn arwain arolygon boddhad dioddefwyr a chytunodd ei bod yn bwysig annog cynrychiolaeth well o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Teimlai CS y byddai hyn yn rhywbeth y gallai ei thîm weithio arno gyda thîm y Comisiynydd.</p>
5.	Data'r Adran Safonau Proffesiynol ar Gwynion yn Ôl Ethnigrwydd	<p>5.1 Canolbwyntiodd y bwrdd ar ddata'r adran Safonau Proffesiynol ar gwynion yn ôl ethnigrwydd, a nododd JT yr anawsterau a fu o ran deall y wybodaeth ar y ffurf y cafodd ei chyflwyno. Rhannodd JT fod yr adran Safonau Proffesiynol wrthi'n gwneud gwaith i wella'r broses gwyno ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan fod ystadegau'n dangos bod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o wneud cwyn.</p> <p>5.2 Dywedodd MA fod y Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi comisiynu darn o waith yn ymwneud â'r adran Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Corfforaethol, er mwyn meithrin dealltwriaeth well o anghymesuredd mewn prosesau ar draws yr heddlu, o achosion o gamymddwyn i recriwtio. Hefyd, ailbwysleisiodd MA bwysigrwydd ansawdd data a chofnodi data ar ethnigrwydd er mwyn craffu ar feysydd i'w gwella.</p> <p>5.3 Nododd EW nifer y cwynion a godwyd gan staff duon a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu, a gofynnodd a oedd cyfweiliadau ymadael yn cael eu defnyddio i ddeall materion swyddogion a staff, gan nad oeddent o bosibl wedi teimlo'n ddigon hyderus i godi materion drwy gŵyn ffurfiol yn ystod cyfnod eu gwasanaeth. Nododd MS fod cyfraddau cwblhau cyfweiliadau ymadael yn fater. Dywedodd fod system newydd wedi'i chyflwyno'n ddiweddar a bod gwaith yn cael ei wneud gan Fwrdd y Gweithlu, yn y gobaith o wella nifer y bobl sy'n cwblhau'r arolygon, gan ganolbwyntio ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a rhywedd yn benodol. Gofynnodd EW am i gylch gwaith Bwrdd y Gweithlu gael ei rannu â thîm y Comisiynydd er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r strwythurau sydd ar waith i reoli'r materion a drafodwyd, a mynd i'r afael â nhw.</p> <p>5.4 Cadarnhaodd EW y byddai HJJ yn gweithio gyda Chymdeithas yr Heddlu Du i ystyried adborth gan staff a swyddogion blaenorol er mwyn helpu i ddatblygu gwaith cynllunio a gwella gwasanaethau, a theimlai ei bod yn bwysig bod MS yn rhannu gwybodaeth a chymau gweithredu gan fyrdau a grwpiau eraill â hi. Teimlai MH ei bod yn bwysig osgoi achosion dyblygu ymdrech mewn unrhyw waith ymchwil arfaethedig yn y dyfodol.</p>
6.	Casgliadau ac Eithriadau.	<p>6.1 Rhoddodd HJJ grynodedd o'r prif themâu a drafodwyd yn ystod y cyfarfod a nododd y materion yr oedd angen i'r bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt o'r data. Roedd yn amlwg bod y cymarebau achosion anghymesur o stopio a chwilio yn erbyn pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cynyddu yn ardal yr heddlu, gan gynnwys cyfraddau arestio a chyfraddau defnydd o rym. Cyfeiriodd HJJ hefyd at ei phryderon ynghylch swm y</p>

		<p>data ar droseddau lle nad oedd ethnigrwydd wedi'i gofnodi, ynghyd â'r diffyg adborth ar foddhad gan gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Teimlai HJJ y dylai'r bwrdd ystyried sut i fynd i'r afael â'r materion hyn ac ymrwymo i ddeall y data. Cyfeiriodd HJJ at y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a dywedodd ei fod yn adlewyrchu'r materion a'r ymrwymadau hyn, gan gynnwys cysylltiadau cymunedol, hyfforddiant swyddogion a rhagfarn ymwybodol a diarwybod, a drafodwyd yn ystod y cyfarfod heddiw.</p> <p>6.2 Yn olaf, awgrymodd EW nad oedd y data'n mynd i'r cyfeiriad a obeithiwyd, ond bod y cyfarfod heddiw wedi dangos y buddsoddiad a'r ymrwymiad i ystyried manylion y materion. Byddai'r heddlu a thîm y Comisiynydd yn mynd ar drywydd y materion hyn drwy weithgarwch parhaus. Byddai argymhellion tîm y Comisiynydd yn cael eu llunio ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.</p>
7.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Boddhad Dioddefwyr.	6.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir.
8.	Unrhyw Fater Arall	7.1 Diolchodd EW i aelodau'r bwrdd am eu sylwadau a chadarnhaodd y camau gweithredu a fyddai'n cael eu dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Tabl Camau Gweithredu

Dyddiad	Cyfarfod	Cam Gweithredu
04/08/2020	Anghymesuredd Ethnig	Tîm y Comisiynydd i rannu rhif y digwyddiad yn y deunydd fideo camera a wisgir ar y corff a nodwyd yn yr adroddiad.
04/08/2020	Anghymesuredd Ethnig	Yr Heddlu i ddarparu dadansoddiad pellach i dîm y Comisiynydd o ddata stopio a chwilio fesul ardal leol er mwyn gweld sut mae'r data hyn yn cymharu o ran anghymesuredd ethnig, e.e. dadansoddiadau awdurdodau lleol yn erbyn data poblogaeth awdurdodau lleol (ac o bosibl hyd at lefelau'r sectorau a nodir ar gofnodion stopio a chwilio).
04/08/2020	Anghymesuredd Ethnig	Yr heddlu i ddarparu dadansoddiad pellach o'r data mewn perthynas â thimau/swyddogion unigol sy'n stopio'r nifer mwyaf o bobl a'r nifer mwyaf o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Ystyried canfyddiadau a thuaddiadau. Canfod p'un a wnaed defnydd cywir o'r pŵer yn yr achosion hyn. Yr heddlu i rannu manylion â thîm y Comisiynydd er mwyn iddo ymgymryd â gwaith ar hyn.

04/08/2020	Anghymesuredd Ethnig	Yr heddlu i gasglu data ar unigolion a gaiff eu stopio a'u chwilio'n fynych ac unigolion y defnyddir grym yn eu herbyn yn fynych er mwyn gwneud gwaith tebyg i'r uchod (ar y cyd â thîm y Comisiynydd).
04/08/2020	Anghymesuredd Ethnig	Cyflwyno systemau i sicrhau bod byrddau a grwpiau presennol a rhai newydd (gan gynnwys Bwrdd y Defnydd o Bwerau'r Heddlu a Bwrdd y Gweithlu) wedi sefydlu ffyrdd o gyfrannu at y Bwrdd Craffu a/neu'r CSB.
04/08/2020	Anghymesuredd Ethnig	Yr heddlu i egluro sut y caiff camau gweithredu ar gyfer gwella eu monitro mewn perthynas â stopio a chwilio a'r defnydd o rym, h.y. p'un a gaiff gwersi i'w dysgu eu nodi yng ngwaith monitro'r tîm Sicrwydd ac Arolygu, a sut y cânt eu cyflwyno i unigolion, goruchwylwyr a/neu dimau ehangach?